Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

INF94W

# Canllaw gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer **gyrwyr â chyflwr meddygol**

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/driving-medical-conditions**



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

1/23

## Rôl ein Grŵp Meddygol Gyrwyr

**Mae Grŵp Meddygol Gyrwyr yn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd trwy benderfynu a yw gyrwyr â chyflyrau meddygol yn ffit i yrru'n ddiogel. I wneud hyn, mae DVLA yn cyflogi meddygon arbenigol i gefnogi cymhwyso'r safonau meddygol ac fe'u cefnogir gan staff gweinyddol.**

## Yr hyn sydd ei angen arnom gennych chi

### Os oes gennych drwydded yrru eisoes a'ch bod yn datblygu cyflwr meddygol

- Yn ôl y gyfraith rhaid ichi ddweud wrthym am unrhyw gyflwr a allai effeithio ar eich gallu i yrru'n ddiogel.
- Os ydych mewn damwain ac y canfyddir bod eich cyflwr iechyd yn ffactor a gyfrannodd, efallai y cewch eich erlyn ac efallai na fydd eich yswiriant yn ddilys.
- Rhaid ichi roi gwybod inni os bydd cyflwr meddygol rydych eisoes wedi dweud wrthym amdano yn gwaethygu.
- Bydd eich meddyg teulu yn gallu rhoi cyngor ichi ynghylch a ddylech yrru tra bod ymholiadau meddygol yn cael eu gwneud.

I wirio pa gyflyrau y mae angen ichi ddweud wrthym amdanynt ac i lawrlwytho holiadur meddygol, gallwch fynd i **www.gov.uk/health-conditions-and-driving**

### Os ydych yn gwneud cais am drwydded yrru

- Mae gan y ffurflen gais adran iechyd y mae'n rhaid ichi ei llenwi.
- **Rhaid** ichi ddweud wrthym os ydych yn dioddef o unrhyw un o'r cyflyrau meddygol a restrir ar y ffurflen.

### Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, mae'r gyfraith yn caniatáu ichi yrru cyhyd â

- rydych wedi dal trwydded o'r blaen
- nid ydych wedi'ch gwahardd, ac
- nid ydych wedi cael, ac ni fyddech, yn cael eich gwrthod am drwydded am resymau meddygol.

Mae manylion hyn ar y ffurflen gais.

- Rhaid ichi fod yn hyderus na fydd eich cais yn cael ei wrthod oherwydd unrhyw gyflwr meddygol a ddatganwyd gennych (os nad ydych yn siŵr, ceisiwch gyngor gan eich meddyg).

- Rhaid eich bod wedi dal trwydded yrru ddilys* a dim ond gyrru cerbydau rydych yn gymwys i'w gyrru.
- Rydych wedi anfon eich cais wedi'i gwblhau'n llawn i DVLA o fewn y 12 mis diwethaf.
- Ni ddylai eich trwydded ddiwethaf fod wedi'i diddymu na'i gwrthod am resymau meddygol.
- Rhaid ichi beidio â bod wedi'ch gwahardd gan lys ar hyn o bryd.
- Rhaid ichi beidio â bod wedi'ch gwahardd fel troseddwr risg uchel ar neu ar ôl 1 Mehefin 2013.

*gall y drwydded hon fod yn: drwydded Prydain Fawr lawn, trwydded dros dro Prydain Fawr, trwydded gymunedol, trwydded Gogledd Iwerddon, trwydded allanol Prydeinig/ Lluoedd Prydeinig neu drwydded gyfnewidiadwy.

## Beth sy'n digwydd nesaf – cam 1

- Yn gyntaf, byddwn fel arfer yn gofyn ichi lenwi holiadur meddygol i roi rhagor o fanylion inni am eich cyflwr. I arbed amser gallwch gael hwn o **www.gov.uk/driving-medical-conditions** (Efallai na fydd angen hwn os ydych yn gwneud cais am drwydded lori neu fws a'ch bod wedi darparu 'adroddiad archwiliad meddygol' (D4) gyda'ch cais.)
- Byddwn hefyd yn gofyn ichi roi caniatâd i gael manylion eich cyflwr meddygol gan eich meddyg. Gallwch roi eich caniatâd drwy lofnodi'r dudalen ganiatâd a datganiad sydd ynghlwm wrth yr holiadur.

  Gellir dychwelyd hwn atom drwy'r post i:

  Grŵp Meddygol Gyrwyr, DVLA, Abertawe, SA99 1TU.

## Beth sy'n digwydd nesaf – cam 2

- Os yn bosibl, byddwn yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth a roddwch.
- Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, gallai ein meddyg:
  - gysylltu â'ch meddyg neu ymgynghorydd (neu'r ddau)
  - trefnu ichi gael eich archwilio gan swyddog meddygol neu arbenigwr lleol
  - gofyn ichi gymryd asesiad gyrru, prawf llygaid neu werthusiad gyrru
  - os bydd angen ichi fynychu archwiliad neu asesiad byddwn yn ysgrifennu atoch yn egluro pwy y mae angen ichi gysylltu â nhw. Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig y mae angen eu hystyried, dylech roi gwybod i DVLA am eich gofynion a sut y gallwn eich cynorthwyo cyn trefnu apwyntiad.

### Beth sy'n digwydd nesaf – cam 3

Unwaith y bydd gan y meddyg yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno, bydd penderfyniad yn cael ei wneud am eich trwydded.

**Y penderfyniadau a wnawn**

- Efallai y gallwch gadw'ch trwydded neu gael un newydd.
- Efallai y byddwn yn rhoi trwydded yrru ichi am gyfnod o un, dwy neu dair blynedd os bydd y meddyg yn penderfynu bod angen adolygu eich ffitrwydd meddygol i yrru yn y dyfodol.
- Efallai y cewch drwydded yrru sy'n nodi bod angen gosod rheolaethau arbennig ar y cerbydau rydych yn eu gyrru er mwyn ichi allu goresgyn effeithiau anabledd corfforol.
- Gallwn dynnu eich trwydded yn ôl neu wrthod eich cais. Dim ond os bydd ein hymholiadau'n cadarnhau, o ganlyniad i'ch cyflwr meddygol, nad ydych yn ffit i yrru y byddwn yn gwneud hyn.

  Os bydd yn rhaid inni gymryd y cam hwn byddwn yn:

  - esbonio pam y gwnaethom y penderfyniad hwn ac, os yn bosibl, dweud wrthych pryd y gallwch ailymgeisio am eich trwydded
  - anfon hysbysiad atoch a fydd yn esbonio eich hawl i apelio i lys ynadon os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu i lys siryf os ydych yn byw yn yr Alban.

## Sut mae'r safonau meddygol ar ffitrwydd i yrru'n cael eu gosod?

- Mae safonau ar gyfer gyrru'n ddiogel wedi'u nodi yng nghyfraith Prydain ac yn seiliedig ar y cyngor a ddarperir gan Baneli Cynghori Meddygol Anrhydeddus yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Mae chwe phanel ar wahân yn ymdrin â'r prif gyflyrau ac anhwylderau. Mae'r paneli'n cynnwys arbenigwyr o feysydd meddygol penodol. Mae'r arbenigwyr hyn yn rhoi cyngor ar sut mae'r cyflyrau meddygol penodol yn effeithio ar yrru'n ddiogel.
- Mae'r paneli'n cyfarfod yn rheolaidd a byddant yn adolygu'r safonau yng ngoleuni ymchwil feddygol a datblygiadau mewn gwyddor feddygol.
- Mae safonau uwch yn eu lle ar gyfer gyrru loriau a bysiau (oherwydd maint a phwysau'r cerbyd a hefyd faint o amser y gall gyrwyr ei dreulio wrth y llyw).

## Cymhwyso'r safonau meddygol

- Mae ein meddygon yn cymhwyso'r safonau hyn ac yn penderfynu a yw unigolyn yn ffit i yrru.
- Mae'r gyfraith ar roi trwyddedau gyrru wedi'i chynnwys yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988 a Rheoliadau Cerbydau Modur (Trwyddedau Gyrru) 1999.

## Ein safonau gwasanaeth

Ein nod yw darparu gwasanaeth cwrtais ac effeithlon.

Ein nod yw cwblhau ein hymholiadau cyn gynted â phosibl. Mae'r amser a gymerwn i ymdrin â'ch achos yn dibynnu ar y cyflwr meddygol sydd gennych a'r wybodaeth y mae'n rhaid inni ei chasglu.

Byddwch fel arfer yn cael penderfyniad o fewn 6 wythnos.
Byddwch yn cael llythyr gennym os bydd yn cymryd rhagor o amser.

Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth a ddarperir gennych chi neu eich meddygon yn gyfrinachol ac yn ei defnyddio ar gyfer y dibenion a ganiateir gan y gyfraith. O dan y Ddeddf Diogelu Data, mae gennych hawl i weld y wybodaeth bersonol a gedwir ar gofnodion. Fodd bynnag, mae ein cofrestriad o dan y ddeddf yn caniatáu inni gadw gwybodaeth benodol yn ôl.

## Gwybodaeth gyffredinol

- Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.gov.uk/driving-medical-conditions**

## Gwybodaeth bellach a sut i gysylltu â ni

### Ewch i

**www.gov.uk/driving-medical-conditions**

### Dros y ffôn

**0300 790 6806** neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg rhwng 8am a 7pm dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Os oes gennych anawsterau clyw neu leferydd, cysylltwch â ni drwy ffôn testun ar 0300 123 1278. Ni fydd y rhif hwn yn ymateb i ffôn cyffredin.

### Drwy'r post

Grŵp Meddygol Gyrwyr
DVLA
Abertawe
SA99 1TU.

### Drwy e-bost

Ewch i: **www.gov.uk/contact-the-dvla**

**Dyfynnwch eich rhif achos meddygol, rhif gyrrwr neu enw llawn a dyddiad geni.**

Os ydych yn dilyn i fyny ar lythyr a gawsoch gennym, ffoniwch y rhif ar y llythyr, neu ysgrifennwch at yr unigolyn a enwir ar y llythyr, gan ddyfynnu ein cyfeirnod.

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau.**

**gov.uk/dvla**